

CYFARFOD	PWYLLGOR SAFONAU
DYDDIAD	27ain Mehefin 2016
PENNAWD	MYNYCHU AC ARSYLLU CYFARFODYDD.
AWDUR	IWAN G D EVANS, SWYDDOG MONITRO

Cefndir

1. Mae'r Pwyllgor Safonau drwy ei gynllun gwaith wedi annog aelodau i fynd ati i ymweld â chyfarfodydd Cyngor Gwynedd a Chynghorau Cymuned y Sir. Mae'n debyg mai prif amcan yr ymarfer oedd rhoi cyfle i aelodau ddod yn gyfarwydd â sut oedd fforymau aelodau Cyngor Gwynedd neu gynghorau cymuned yn gweithredu. Cyfrwng i osod cyd-destun pwysig ar gyfer arfer eu swyddogaethau.
2. Yn ystod y cyfnod yma cafwyd eitem sefydlog ar y rhaglen ac adroddwyd ar ymweliadau. Nodwyd hefyd fod dyfodiad gwe ddarledu rhai cyfarfodydd Cyngor Gwynedd wedi creu cyfle i arsyllu cyfarfodydd yn llawer rhwyddach. Yn ystod y cyfnod adroddwyd fod aelodau wedi ymweld â Chynghorau Llanystumdwy a Llandwrog a derbyniwyd adborth o'r cyfarfodydd yma.

Ar hyn o bryd trefniant ad-hoc sydd mewn lle ac anogir aelodau i fynychu cyfarfodydd yn eu hardal. Er nad oes dim yn atal aelodau rhag mynychu cyfarfodydd cyhoeddus na dilyn gwe ddarllediadau nid oes strwythur nac amcanion ffurfiol wedi ei osod ar gyfer gwneud hyn. Ar y llaw arall gosodwyd y gwaith yma yn y Cynllun gwaith oherwydd gwelwyd fod budd datblygol mewn annog y ddealltwriaeth yma.

Mae'n amserol adolygu'r drefn a'r budd a gafwyd. Y cwestiwn i'w gyfarch yw adnabod os oes gwerth mewn adnabod rhaglen fwy strwythuredig o weithgareddau.

Argymhelliad

Fod y Pwyllgor yn ystyried y budd mewn trefnu rhaglen fwy ffurfiol o arsyllu cyfarfodydd.